# CARTREFI AR GYFER Y DYFODOL – BETH SY'N BWYSIG I DRIGOLION YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI?



Os ydych chi'n 50 oed neu'n hŷn, llenwch ein harolwg byr a rhoi gwybod i ni beth sy'n bwysig i chi am ble rydych chi'n byw yn ddiweddarach mewn bywyd. **Rhannwch eich barn a chael cyfle i ennill un o bedair taleb siopa gwerth £50!**

**Enillwch daleb siopa gwerth**

**£50**

## Anghenion Tai

Rydyn ni'n gwybod y gallai ein hanghenion tai a chymorth newid dros amser. Rydyn ni am wneud yn siŵr bod gennym ni'r cartrefi cywir yn y lleoedd cywir sy'n diwallu anghenion a dyheadau trigolion.

Bydd eich barn chi yn ein helpu ni i ddylanwadu ar gartrefi newydd sy'n cael eu cynllunio ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Arolwg

Sganiwch y cod QR hwn gyda chamera eich ffôn i gael rhagor o wybodaeth ac i weld yr arolwg. Llenwch yr arolwg erbyn dydd Gwener 27 Mehefin 2025.

Os oes angen copi papur, fformat arall, neu unrhyw gymorth i lenwi'r arolwg hwn, cysylltwch â Lois Beech:
07436 718344
research@housinglin.org.uk

**https://www.surveymonkey.com/r/Caerffili**

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gofyn i gwmni annibynnol o'r enw Housing LIN weithio gyda ni ar yr ymchwil hon.**



# CARTREFI AR GYFER Y DYFODOL – BETH SY'N BWYSIG I DRIGOLION YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI?

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisiau sicrhau bod y cartrefi cywir yn cael eu darparu yn y lleoedd cywir, sy'n diwallu anghenion a dyheadau trigolion. Rydyn ni'n cynnal ymchwil gyda phobl 50 oed neu'n hŷn ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw am ble maen nhw'n byw yn ddiweddarach mewn bywyd.**

Enillwch daleb siopa gwerth

£50

Rydyn ni'n gwybod y gallai ein hanghenion tai a chymorth newid dros amser. Rydyn ni am ddeall y canlynol:

- Beth yw'r rhwystrau i symud cartref yn ddiweddarach mewn bywyd?
- Beth yw barn pobl am yr amrywiaeth o gartrefi sydd ar gael ar hyn o bryd?
- Pa gartrefi sydd eu hangen i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn ddiweddarach mewn bywyd?

Er ein bod ni'n cydnabod na fydd llawer o bobl eisiau symud, rydyn ni am i bobl allu gwneud dewisiadau gweithredol a chadarnhaol i symud cartref os hoffen nhw, neu os oes angen iddyn nhw symud cartref yn y dyfodol.

## Sut byddwn ni'n cynnal yr ymchwil?

Mae cyfle i gymryd rhan mewn arolwg byr i rannu eich barn erbyn dydd **Gwener 27 Mehefin 2025** ac ennill un o bedair taleb LovetoShop gwerth £50.

Bydd Housing LIN hefyd yn siarad â phobl mewn grwpiau cymunedol, grwpiau ffocws pwrpasol, sesiynau un i un a galwadau ffôn rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025. Bydd talebau LovetoShop gwerth £10 i'r rhai sy'n cymryd rhan i ddweud 'diolch'.

Bydd yr ymchwil yn casglu barn pobl o amrywiaeth o gymunedau ledled y Fwrdeistref Sirol.

## Pa effaith fydd yr ymchwil yn ei chael?

Bydd eich barn chi yn ein helpu ni i ddylanwadu ar gartrefi newydd sy'n cael eu cynllunio ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cysylltu â ni!

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gofyn i gwmni annibynnol o'r enw Housing LIN weithio gyda ni ar yr ymchwil hon.**

**Ffoniwch 07436 718344 neu e-bostio research@housinglin.org.uk. Noder – efallai na fydd modd i ni siarad â phawb fel rhan o'r ymchwil.**